# Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014 - Argymhellion

## Ymateb Llywodraeth Cymru

1. **Dylid sefydlu system gofnodi unedig, a fydd ar gael i'r cyhoedd, er mwyn ceisio sicrhau bod digwyddiadau yn cael eu cofnodi'n fwy cywir ac yn gliriach.**

***Ymateb Llywodraeth Cymru:***

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai Awdurdodau Lleol sydd yn y sefyllfa orau i sefydlu system gofnodi unedig a bydd yn annog Awdurdodau Lleol i weithio mewn partneriaeth i ystyried yr angen am system o'r fath a'i hymarferoldeb, ei rhinweddau a'i manteision. Bydd Llywodraeth Cymru yn helpu i sefydlu partneriaeth o'r fath.

2. **Dylai awdurdodau lleol geisio sicrhau y caiff pob anifail a atafaelir o dan y Ddeddf ei nodi gan ddefnyddio dull adnabod parhaol.**

***Ymateb Llywodraeth Cymru:***

Mae Llywodraeth Cymru o blaid defnyddio dull adnabod parhaol i nodi ceffylau a atafaelir o dan y Ddeddf ond mae'n nodi bod cost i awdurdodau lleol yn gysylltiedig â rhoi microsglodyn ar bob ceffyl a atafaelir. Ar hyn o bryd, os na fydd perchennog yn cyflwyno ei hun, mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol adnabod y ceffyl cyn y gellir ei symud. Mewn rhai achosion, pan fydd ceffyl yn cael ei ailgartrefu gydag elusen ceffylau, caiff y broses o'i adnabod ei gohirio nes i'r elusen gymryd cyfrifoldeb am y ceffyl. Yn y ddwy sefyllfa hyn, caiff ceffylau heb eu hadnabod a atafaelir o dan y Ddeddf eu nodi gan ddefnyddio dull adnabod parhaol.

Mewn achosion lle mae'r perchennog yn cyflwyno ei hun ond nid yw'r ceffyl wedi'i adnabod, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai'r awdurdod lleol adnabod y ceffyl cyn iddo gael ei ddychwelyd i'r perchennog. Caiff y costau llawn sy'n gysylltiedig ag adnabod y ceffyl eu trosglwyddo i'r perchennog.

Pan fydd awdurdodau lleol yn mynd ati i adnabod unrhyw geffylau a atafaelwyd caiff y ddogfen adnabod (y pasbort) a'r microsglodyn eu cofrestru i'r awdurdod lleol gan mai'r awdurdod lleol sy'n gwneud cais am y pasbort. Os caiff ceffylau eu dychwelyd wedyn i'w perchenogion bydd angen i awdurdodau lleol fod yn ymwybodol o'r gofyniad i drosglwyddo manylion y berchenogaeth neu fel arall mae'n debygol yr ystyrir mai'r awdurdod lleol sy'n cofrestru'r ceffyl yw'r awdurdod cyfrifol os caiff ei atafaelu yn y dyfodol neu os bydd materion lles yn codi.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ailbwysleisio i awdurdodau lleol y dylent geisio sicrhau y caiff pob anifail a atafaelir o dan y Ddeddf ei nodi gan ddefnyddio dull adnabod parhaol. Rydym ar ddeall – fel y nodir uchod - fod yr argymhelliad hwn eisoes yn cael ei weithredu gan sawl awdurdod lleol.

3. **Er y dylai perchenogion tir allu cael budd o'r darpariaethau yn y Ddeddf, a luniwyd yn benodol i fynd i'r afael â phroblemau pori anghyfreithlon, ceffylau yn crwydro a cheffylau'n cael eu gadael, dylai'r ymgysylltiad hwn gael ei reoli drwy adnodd awdurdod lleol.**

***Ymateb Llywodraeth Cymru:***

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw Cymru sy'n rhydd o bori anghyfreithlon, sy'n ymagwedd dim goddefgarwch tuag at yr arfer a fydd yn sicrhau, yn y dyfodol, fod Cymru yn rhydd o niwed cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol annerbyniol a achosir gan niwsans pori anghyfreithlon.

Fel y nodir yn yr adroddiad, yng Nghymru dim ond yr awdurdodau lleol sydd â phwerau o dan y Ddeddf.  Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai perchenogion tir allu cael budd o'r darpariaethau yn y Ddeddf, er enghraifft, lle mae o blaid symud ceffylau sydd wedi'u gadael o dir preifat.  Fel y cydnabyddir yn yr adroddiad, dylai'r ymgysylltiad hwn â pherchenogion tir gael ei reoli drwy'r awdurdod lleol.  Bydd Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol i weithio mewn partneriaeth â pherchenogion tir i ddatrys achosion o bori anghyfreithlon, ceffylau yn crwydro a cheffylau sydd wedi'u gadael a bydd yn tynnu sylw at fanteision dull gweithredu o'r fath.

4. **Pan fydd problem ceffylau sydd wedi'u gadael ar dir comin wedi'i nodi, dylid cymryd camau i ddod o hyd i ateb cynaliadwy drwy gydweithredu.**

***Ymateb Llywodraeth Cymru:***

Fel y nodir yn yr adroddiad, mae'n ofynnol sefydlu graddau gwir a llawn y broblem er mwyn dod o hyd i ateb hirdymor a'i roi ar waith.  Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i asesu maint y broblem a cheisio dod o hyd i atebion ymarferol a chynaliadwy. Bydd Llywodraeth Cymru yn annog dull gweithredu mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, perchenogion tir, cominwyr, sefydliadau lles, y rhai â buddiant mewn tir comin ac awdurdodau lleol er mwyn datrys achosion o geffylau yn cael eu gadael ar dir comin.

Bydd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno Cofrestrau Electronig o Dir Comin yng Nghymru yn y dyfodol o gymorth mawr i nodi'r rhai sydd â hawliau pori ac, felly, i helpu i adnabod y ceffylau hynny sydd â hawl gyfreithiol i bori ar dir comin.

5. **Dylid cyhoeddi canllawiau yn argymell mai dim ond drwy aelodau'r Cyngor Lles Ceffylau Cenedlaethol y dylid ailgartrefu ceffylau.**

***Ymateb Llywodraeth Cymru:***

Mae Llywodraeth Cymru o blaid y cynnig hwn, sydd â'r nod o sicrhau, pan fydd awdurdodau lleol yn ailgartrefu ceffylau, bod prosesau digonol a chadarn ar waith er mwyn sicrhau y cyrhaeddir y safonau lles gofynnol.  Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi canllawiau i awdurdodau lleol yn argymell mai dim ond drwy'r sefydliadau lles hynny sy'n aelodau o'r Cyngor Lles Ceffylau Cenedlaethol y dylid ailgartrefu ceffylau.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithio gyda Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru a Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru er mwyn sicrhau bod manteision ailgartrefu ceffylau drwy aelodau o'r Cyngor Lles Ceffylau Cenedlaethol

yn cael eu deall a'u cyfleu i awdurdodau lleol sy'n ymdrin ag achosion o bori anghyfreithlon, ceffylau sydd wedi'u gadael a cheffylau sy'n crwydro.

**6. Dylid annog awdurdodau lleol i ailgartrefu ceffylau a atafaelwyd drwy'r sector elusennol ac nid yn uniongyrchol gydag aelodau o'r cyhoedd.**

***Ymateb Llywodraeth Cymru:***

Gan fod gan lawer o anifeiliaid a atafaelir broblemau iechyd a lles sy'n gofyn am ofal arbenigol mae Llywodraeth Cymru o blaid yr argymhelliad i ailgartrefu ceffylau atafaelwyd drwy'r sector elusennol. Mae'r adroddiad yn rhoi rhesymau ychwanegol pam yr ystyrir ei bod yn well ailgartrefu ceffylau drwy'r sector elusennol yn hytrach na'u hailgartrefu'n uniongyrchol gydag aelodau o'r cyhoedd ac yn nodi bod pob awdurdod lleol wedi datgan mai dim ond gydag elusennau a gwarchodfeydd y byddai'n ailgartrefu ceffylau, er bod y Ddeddf yn darparu ar gyfer gwerthu neu drosglwyddo ceffylau yn uniongyrchol i berchenogion preifat. Tynnir sylw awdurdodau lleol at y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r argymhelliad hwn.

Mae gan Sefydliadau Lles y sgiliau i adsefydlu ceffylau a pharu anifeiliaid addas â'r rhai sy'n awyddus i'w hailgartrefu.

**7. Dylid dileu'r terfyn amser ar gyfer gosod hysbysiadau atafaelu ac yn eu lle, roi gofyniad i osod hysbysiadau atafaelu ar adeg atafaelu'r anifail.**

***Ymateb Llywodraeth Cymru:***

O dan y Ddeddf, ar hyn o bryd mae gan awdurdodau lleol 24 awr i osod hysbysiad a rhoi gwybod i berchennog sut i wneud cais i'w geffylau gael eu dychwelyd. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y cyfnod hwn o 24 awr yn rhesymol, am ei fod yn rhoi cyfle i'r awdurdod lleol sy'n atafaelu'r ceffyl(au) ddogfennu'r ceffylau hynny a atafaelwyd yn gywir, paratoi'r hysbysiad a'i arddangos ar y safle neu'n agos ato. Gallai arddangos hysbysiad ar adeg atafaelu'r ceffyl/ceffylau olygu ei fod/eu bod yn cael ei ddisgrifio/eu disgrifio'n anghywir a dim ar ffurf copi papur y gellid arddangos hysbysiadau o'r fath a fyddai'n anfoddhaol mewn tywydd gwael. Byddai'n rhaid i'r awdurdodau lleol ddychwelyd i'r safle gyda hysbysiad (laminedig) mwy parhaol. Os bydd yr awdurdod lleol yn cymryd y cyfnod llawn o 24 awr i osod hysbysiad ar ôl atafaelu anifail mae'r canllawiau a roddwyd i awdurdodau lleol yn nodi y dylent geisio sicrhau bod yr hysbysiadau sy'n cael eu harddangos yn parhau'n weladwy am y cyfnod o 7 diwrnod ar ôl i'r hysbysiad gael ei osod. Mae hyn yn sicrhau bod perchennog unrhyw geffyl(au) a atafaelwyd yn cael digon o gyfle i gael gwybod am yr atafaelu ac â phwy y dylai gysylltu.

Yn ystod y tair blynedd ers i'r Ddeddf ddod i rym, nid yw Llywodraeth Cymru wedi'i hysbysu am unrhyw bwysau – gan awdurdodau lleol na pherchenogion ceffylau na chynrychiolwyr – i newid y terfyn amser hwn. Mae'r Ddeddf a'r canllawiau yn darparu ar gyfer arddangos hysbysiad ar y safle atafaelu neu'n agos ato o fewn 24 awr i'r adeg atafaelu ac, felly, mae'n darparu i'r awdurdod lleol osod hysbysiad ar yr un pryd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn trafod yr argymhelliad hwn gydag awdurdodau lleol er mwyn gweld a oes unrhyw gefnogaeth i'r cam gweithredu a argymhellir yn yr adroddiad.

8. **Dylid cadw'r cyfyngiad amser ar gyfer hysbysu un o Swyddogion yr Heddlu o fewn 24 awr fod ceffyl wedi'i atafaelu.**

***Ymateb Llywodraeth Cymru:***

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylid cadw'r terfyn amser o 24 awr ar gyfer hysbysu un o Swyddogion yr Heddlu. Mae'r gofyniad hwn yn sicrhau atebolrwydd a bod cofnod annibynnol ar gael sy'n ymwneud ag atafaelu unrhyw geffyl.

9. **Dylid ymestyn y gofyniad i ddarparu hysbysiad ysgrifenedig o fewn 24 awr, er mwyn darparu ar gyfer ystyriaethau clercol safonol.**

***Ymateb Llywodraeth Cymru:***

Mae Llywodraeth Cymru yn dal i fod o'r farn bod 24 awr yn derfyn amser rhesymol ar gyfer darparu hysbysiad ysgrifenedig bod ceffyl wedi'i atafaelu pan fydd perchennog y ceffyl hwnnw yn hysbys. Byddai ymestyn y terfyn amser yn golygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol gadw ceffylau a atafaelwyd am fwy o amser (a fyddai'n cynyddu costau) am mai dim ond ar ôl i'r hysbysiad gael ei gyflwyno i'r unigolyn y nodwyd mai ef yw'r perchennog y bydd y cyfnod o saith diwrnod yn dechrau. Fel y nodir yn y canllawiau, mewn achosion lle mae'r perchennog neu rywun sy'n gweithredu ar ran y perchennog yn cysylltu o ganlyniad i gyflwyno hysbysiad (o fewn y cyfnod o saith diwrnod ar ôl i'r hysbysiad gael ei arddangos ar y safle atafaelu mae'r cloc yn stopio ac mae'r cyfnod o saith diwrnod yn ailddechrau o'r diwrnod y cyflwynir hysbysiad yn nodi'r costau y mae'r perchennog yn atebol am eu talu i'r cyfryw unigolion.

Mae'r adroddiad yn nodi y dylai pob awdurdod lleol barhau i geisio cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig o fewn y cyfnod o 24 awr a ragnodir ar hyn o bryd, a bod yr argymhelliad yn cael ei wneud er mwyn darparu ar gyfer amgylchiadau esgusodol. Felly, disgwylir o hyd i'r hysbysiad ysgrifenedig gael ei ddarparu o fewn 24 awr.

Cyflwynwyd y Ddeddf ar gais awdurdodau lleol a oedd am weld yr amser yr oedd yn ofynnol iddynt gadw ceffylau cyn cael gwared arnynt yn cael ei leihau. Byddai caniatáu cyfnod hwy i ddarparu hysbysiad ysgrifenedig yn golygu y byddai'n rhaid i awdurdodau lleol gadw'r ceffylau am fwy o amser a fyddai'n arwain at gostau ychwanegol i'r awdurdod.

Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn codi'r mater hwn gydag awdurdodau lleol er mwyn gweld a yw'r terfyn amser hwn yn broblem yn ymarferol a bydd yn cymryd camau i ddod o hyd i ateb os ystyrir bod angen gwneud hynny.

10. **Dylid cadw'r cyfnod atafaelu gofynnol o dan y Ddeddf, cyn cael gwared ar unrhyw geffyl, ar saith diwrnod.**

***Ymateb Llywodraeth Cymru:***

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod cadw'r cyfnod atafaelu o saith diwrnod cyn y gall awdurdod lleol gael gwared ar unrhyw geffyl a atafaelwyd yn derfyn amser rhesymol, sy'n rhoi digon o amser i berchenogion gysylltu a chymryd unrhyw geffylau a all fod wedi mynd ar goll yn ôl. Mae Deddf Lles Anifeiliaid 2006 yn cyflwyno 'dyletswydd gofal' ar berchenogion a cheidwaid sy'n sicrhau lles yr anifeiliaid yn eu gofal. Felly, ystyrir ei bod yn rhesymol disgwyl i berchenogion archwilio eu

hanifeiliaid yn rheolaidd (o leiaf unwaith bob 24 awr), felly mae saith diwrnod yn rhoi digon o amser i berchennog ganfod bod anifeiliaid ar goll a chymryd camau i'w cael yn ôl.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad y dylid cadw'r cyfnod atafaelu gofynnol o dan y Ddeddf, cyn cael gwared ar unrhyw geffyl, ar saith diwrnod.

**11. Dylid diweddaru Adran 7 (7) o'r Ddeddf er mwyn darparu ar gyfer dychwelyd ceffyl i berchennog os bydd anghydfod wedi'i godi gyda Gweinidogion Cymru, ar yr amod y caiff y ffi sy'n ddyledus ei thalu cyn i'r ceffyl gael ei ryddhau.**

***Ymateb Llywodraeth Cymru**:*

Nodir, yn y tair blynedd ers i'r Ddeddf ddod i rym, mai dim ond un achos sydd wedi'i gofnodi lle yr heriodd perchennog gostau atafaelu a chodi'r mater hwn gyda Gweinidogion Cymru. Disgwylir i awdurdodau lleol fabwysiadu ymagwedd bragmatig wrth ymdrin ag atafaeliadau a'r broses o ddychwelyd ceffylau pan fydd perchenogion yn cysylltu â hwy.

O ystyried y costau sy'n gysylltiedig â dal ceffylau, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai awdurdod lleol wneud penderfyniad er lles y ceffyl, y perchennog a'r awdurdod lleol a gweithredu yn unol â hynny mewn perthynas â dychwelyd y ceffyl i'r unigolyn y cadarnhawyd mai ef yw'r perchennog tra bod unrhyw anghydfod ynglŷn â chostau yn cael ei ystyried a'i ddatrys. Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen newid y ddeddfwriaeth; a byddai o blaid cefnogi awdurdodau lleol i gymryd camau yn ôl yr amgylchiadau ac mewn ymateb i achosion unigol.

Mae canllawiau a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Ddeddf yn argymell y dylai awdurdodau lleol geisio sicrhau bod costau yn cael eu talu fel y gellir dychwelyd y ceffyl i'r perchennog tra'n aros i anghydfod gael ei ddatrys. Mae hyn yn lleihau'r baich costau ar y perchennog a'r awdurdod lleol ac unwaith y bydd anghydfod wedi'i ddatrys gall yr awdurdod lleol ad-dalu costau neu eu cadw. Os bydd y perchennog yn gwrthod talu'r costau disgwylid i'r awdurdod lleol gadw'r ceffyl nes i'r anghydfod gael ei ddatrys.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw achosion lle mae perchenogion wedi bod yn amharod i herio penderfyniad i atafaelu eu ceffylau oherwydd goblygiadau cost. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn trafod y mater hwn ymhellach gydag awdurdodau lleol a all, yn eu tro, geisio barn perchenogion/ceidwaid ceffylau, er mwyn gweld a yw'r mater yn rhwystr. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ymatebion a gyflwynir mewn perthynas â'r mater hwn er mwyn deall pa ffactorau a all fod yn dylanwadu ar berchenogion/ceidwaid ac unrhyw benderfyniad i beidio â herio'r penderfyniad hwnnw gyda Gweinidogion Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i ddod o hyd i ateb i unrhyw broblemau yn hyn o beth.

**12. Dylid gosod terfyn amser o hyd at 90 diwrnod ar gyfer gwneud ac ystyried unrhyw hawliadau perchenogaeth gyfreithlon.**

***Ymateb Llywodraeth Cymru:***

Yn y tair blynedd ers i'r Ddeddf ddod i rym nid yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw achosion lle mae cais wedi'i wneud am unrhyw elw a wnaed wrth i'r perchennog cyfreithlon werthu ceffyl. Credir bod awdurdodau lleol ar hyn o bryd yn ffafrio elusennau lles fel opsiwn ar gyfer ailgartrefu ceffylau ac, felly, nid oes unrhyw arian yn newid dwylo am fod y ceffyl yn cael ei roi fel rhodd i'r elusen. Fel y nodir yn yr adroddiad, mae gwerth ar y farchnad y rhan fwyaf o geffylau sy'n pori'n anghyfreithlon, ceffylau sy'n crwydro neu geffylau sy'n cael eu gadael, yn isel iawn ar hyn o bryd sydd, i bob pwrpas, yn golygu nad yw'n ymarferol cael gwared ar geffylau drwy eu gwerthu i'r cyhoedd. At hynny, mae Llywodraeth Cymru ar ddeall bod cael gwared ar geffylau drwy eu gwerthu wedi arwain, yn y gorffennol, at geffylau yn cael eu prynu gan y rhai yr ystyrir mai hwy yw'r perchenogion gwreiddiol sy'n peri i'r cylch o bori anghyfreithlon barhau. Ystyrir hefyd fod y costau sy'n gysylltiedig â chadw ceffyl am y cyfnod statudol ynghyd â chostau cysylltiedig adnabod ceffyl a'i gludo i farchnad/arwerthiant yn llawer mwy na'r elw tebygol o'i werthu. Fel y cydnabyddir yn yr adroddiad hwn, nid yw hyn yn digwydd yn ymarferol oherwydd, yn hytrach na chynhyrchu incwm, mae costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r dulliau gwaredu a ddefnyddir gan awdurdodau lleol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn codi'r mater hwn gydag awdurdodau lleol ac yn gofyn iddynt asesu achosion lle mae perchenogion wedi cysylltu â hwy i hawlio unrhyw elw a wnaed drwy werthu ceffyl sy'n fwy na'r costau. Os ystyrir bod hon yn broblem mae Llywodraeth Cymru yn barod i ailystyried pennu cyfnod o amser i berchenogion hawlio ad-daliad.

**13. Dylid sefydlu system rheoli achosion effeithiol er mwyn sicrhau cysondeb a chydymffurfiaeth gan bawb sy'n defnyddio'r Ddeddf.**

***Ymateb Llywodraeth Cymru:***

Fel y nodwyd yn argymhelliad (1) mae Llywodraeth Cymru yn ystyried mai awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i sefydlu system gofnodi unedig a bydd yn annog awdurdodau lleol i weithio mewn partneriaeth i ystyried yr angen am system o'r fath, ei hymarferoldeb, ei rhinweddau a'i manteision. Bydd Llywodraeth Cymru yn helpu i sefydlu partneriaeth o'r fath.

**14. Dylid ailystyried y Cynllun Gweithredu, a lle y nodwyd amcanion yn flaenorol, dylid arfarnu'r rhain er mwyn ystyried pa mor berthnasol ydynt yn yr amgylchedd presennol. Lle yr ystyrir bod camau gweithredu yn ymarferol o hyd, dylid pennu terfynau amser wedi'u diweddaru ar gyfer eu cwblhau.**

***Ymateb Llywodraeth Cymru:***

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen ailystyried y cynllun gweithredu a bydd yn ceisio datblygu'r camau gweithredu hynny nas cyflawnwyd eto yn unol â'r ymgynghoriad ynghylch y ddeddfwriaeth wedi'i diweddaru ynglŷn ag adnabod ceffylau a'r broses o'i chyflwyno. Bydd y broses hon yn cynnwys arfarniad o amcanion a nodwyd yn flaenorol a'u perthnasedd i amgylchiadau heddiw.